



6 Tachwedd 2023

**YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I AROLYGIAD AR Y CYD AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI FAWRHYDI: 'YR YMATEB AMLASIANTAETH I ACHOSION O GAM-DRIN AC ESGEULUSO PLANT YM MHEN-Y-BONT AR OGWR'**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau am effeithiolrwydd gwaith partneriaeth a gwaith asiantaethau unigol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ar y cyfan, canfu'r arolygiad fod systemau a chydberthnasau ar waith i hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol pan fo plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin a'i esgeuluso.

Mae'n gysur bod yr arolygiad wedi nodi cydberthnasau gwaith da rhwng yr asiantaethau yn y maes Amddiffyn Plant. Fodd bynnag, nodwyd problemau sylweddol yn ymwneud â'r gweithlu yn sgil trosiant staff uchel o fewn y gwasanaethau cymdeithasol ac er bod gweithwyr proffesiynol yn gwneud atgyfeiriadau priodol, mae asiantaethau partner, megis yr heddlu ac ieuchyd, yn cael trafferth ymdopi â'r cynnydd mewn gweithgarwch amddiffyn plant oherwydd diffyg adnoddau. O ganlyniad, nodaf yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn a byddaf yn alinio'r meysydd hyn â'n gwaith i graffu ar Heddlu De Cymru a'i oruchwylio.

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau yn awyddus iawn i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn a bod asiantaethau yn parhau i weithio gyda'i gilydd i wasanaethu'r rhai sydd angen ein hamddiffyniad yn well. Mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Jason Davies, yn crynhoi ei farn ar yr adroddiad fel a ganlyn:

*'Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod yn llawn y canfyddiadau a'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad yn dilyn yr Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant, ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Bwrdd Iechyd Cwm Taf a Heddlu De Cymru. Roedd yn braf nodi ac yn gysur gweld bod yr arolygiaeth wedi nodi cydberthnasau gwaith a strwythurau cryf yn y maes amddiffyn plant, sy'n golygu y gellir gwneud penderfyniadau cynnar, cyflym a chywir ynghylch amddiffyn plant. Yn ychwanegol, nodwyd ffocws parhaus clir yr heddlu ar wendidau ar lefel strategol a phartneriaeth, er mwyn dysgu gwersi o achosion unigol a llywio gwelliannau. Fodd bynnag, mae'r sefydliad yn cydnabod bod yr arolygiad hefyd wedi nodi bod lle i wella mewn rhai meysydd, gan gynnwys adnoddau a'r defnydd o asesiadau strategol, ac y bydd yn mynd i'r afael â hynny mewn ffordd*

## Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru  
Police and Crime Commissioner for South Wales



*ragweithiol a chyflym lle y bo'n bosibl. Ers yr arolygiad, mae'r sefydliad wedi creu cynllun gweithredu amlasiantaeth ar y cyd, a gyflwynwyd i Arolygiaeth Gofal Cymru, sy'n anelu'n gyfan gwbl at fynd i'r afael â'r meysydd hyn i'w gwella. Mae'r sefydliad hefyd wedi bod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â rhai o'r meysydd i'w gwella yn gynnar. Ymrwymwyd yn barod i fuddsoddi'n sylweddol mewn adnoddau, er enghraifft, er mwyn llenwi swyddi gwag presennol a chryfhau swyddi presennol. Fel rhan o'r cynnydd hwnnw mewn adnoddau, ceir deuddeg swydd ychwanegol ar gyfer swyddogion cynhadledd, fel bod gan yr heddlu fwy o bresenoldeb mewn cynadleddau amddiffyn plant.'*

Rwy'n ddiolchgar am sylwadau'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol a'r ymrwymiad i amddiffyn plant drwy weithio'n agos gyda phartneriaid ledled y rhanbarth. Byddaf yn sicrhau bod fy swyddfa yn gweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru i'w helpu gyda'r broses hon.

**Y Gwir Anrh Alun Michael**  
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru**

---

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu  
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU  
ff: 01656 869366  
e: [commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk](mailto:commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk)  
g: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,  
Bridgend, CF31 3SU  
t: 01656 869366  
e: [commissioner@south-wales.pnn.police.uk](mailto:commissioner@south-wales.pnn.police.uk)  
w: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English